PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU
CYD-BWYLLGOR LLYWODRAETHU

DYDDIEDIG 17 GORFFENNAF 2020

PWNC

POLISI RISG A CHOFRESTR RISG PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

YR ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:

Cymeradwyo

- **Polisi Risg Partneriaeth Pensiwn Cymru, a**
- **Chofrestr Risg Partneriaeth Pensiwn Cymru**

RHESYMAU:

Mae Polisi Risg a Chofrestr Risg wedi cael eu datblygu ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru sydd angen cael eu cymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor Llywodraethu.

Awdur yr Adroddiad: **Chris Moore**	**Swydd:** Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol **Cyngor Sir Caerfyrddin**	**Rhif Ffôn 01267 224160** **Cyfeiriad e-bost:** **CMoore@sirgar.gov.uk**

CRYNODEB GWEITHREDOL
Y CYD-BWYLLGOR LLYWODRAETHU

DYDDIEDIG 17 GORFFENNAF 2020

POLISI RISG A CHOFRESTR RISG PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD

Mae Polisi Risg a Chofrestr Risg wedi cael eu datblygu ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru (WPP).

Mae'r Polisi Risg hwn yn adlewyrchu bod Partneriaeth Pensiwn Cymru o'r farn y bydd llywodraethu da a gwell tryloywder yn gwella'r broses o wneud penderfyniadau ac yn cyflawni gwell amcanion ar gyfer rhanddeiliaid Partneriaeth Pensiwn Cymru. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cydnabod bod gan holl Bersonél a Darparwyr Partneriaeth Pensiwn Cymru rôl i'w chwarae o ran nodi, deall, rheoli a monitro risgiau gwirioneddol sy'n wynebu Partneriaeth Pensiwn Cymru.

Mae'r polisi'n amlinellu'r canlynol ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru:

- Credoau ac amcanion sy'n ymwneud â risg
- Strategaeth risg
- Nodi a deall risgiau
- Monitro a rheoli risg

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi llunio Cofrestr Risg a fydd yn dogfennu, yn rheoli ac yn monitro risgiau. Pwrpas Cofrestr Risg Partneriaeth Pensiwn Cymru yw:

- Amlinellu prif risgiau a ffactorau Partneriaeth Pensiwn Cymru a allai gyfyngu ar ei gallu i gyflawni ei hamcanion.
- Mesur difrifoldeb a thebygolrwydd y risg sy'n wynebu Partneriaeth Pensiwn Cymru.
- Rhoi crynodeb o strategaethau rheoli risg Partneriaeth Pensiwn Cymru
- Monitro arwyddocâd parhaus y risgiau hyn a'r gofyniad i gael rhagor o strategaethau lliniaru risg

Bydd y Gweithgor Swyddogion yn gyfrifol am gynnal Cofrestr Risg Partneriaeth Pensiwn Cymru ac yn adrodd ynghylch unrhyw newidiadau neu ddatblygiadau i'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu yn chwarterol.

A ATODWYD ADRODDIAD MANWL?	DO

Y GOBLYGIADAU

Polisi, Troseddau ac Anhrefn a Chydraddoldeb **OES**	Cyfreithiol **DIM**	Cyllid **DIM**	Materion Rheoli Risg **DIM**	Goblygiadau Staffio **DIM**
Polisi Mae polisi risg a chofrestr risg wedi cael eu datblygu a fydd yn ddogfennau ffurfiol ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru.				

YMGYNGHORIADAU

Dylid cynnwys manylion yma am unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd

Adran 100D o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 – Mynediad at Wybodaeth Rhestr o'r Papurau Cefndir a ddefnyddiwyd i lunio'r adroddiad hwn: MANYLIR AR Y RHAIN ISOD		
Teitl y Ddogfen	**Cyfeirnod y Ffeil**	**Y mannau lle mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd gael golwg arnynt/DOLEN AR GYFER Y WEFAN**